

ATODIAD 1
CYNGOR SIR DDINBYCH
BARN INTERIM DRAFFT YNGHYLCH Y CYNNIG I GREU PARC CENEDLAETHOL NEWYDD YNG
NGOGLEDD DDWYRAIN CYMRU
CHWEFROR 2025

Mae'r datganiad cyfan hwn yn cyfleu barn swyddogol interim Cyngor Sir Ddinbych.

Bu aelodau etholedig a swyddogion Cyngor Sir Ddinbych yn cymryd rhan mewn amryw ddigwyddiadau ymgynghori a briffio fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus a chynhaliwyd gweithdy penodol ag aelodau'r Cyngor i drafod y cynnig hwn. Cofnodwyd eu safbwyntiau a lluniwyd datganiad i grynhoi barn y mwyafrif, fel a ganlyn.

Ym marn interim Cyngor Sir Ddinbych, **nid** yw'r cynnig i greu Parc Cenedlaethol newydd (neu ddynodiad tebyg) yng ngogledd ddwyrain Cymru fel y nodir gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn yr ymgynghoriad diweddaraf a'r ardal ymgeisiol a gyhoeddwyd, **yn bosib ar hyn o bryd**. Mae angen gwell eglurder, sicrwydd ynghylch meysydd allweddol ac ychwaneg o wybodaeth i fedru gwneud penderfyniad gwybodus. Nodir y pryderon hyn isod.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod y gallai dynodi parc cenedlaethol a rhoi trefn newydd ar waith fod yn fuddiol i dwristiaeth, newid hinsawdd, datblygu economaidd, iechyd a lles cymunedau lleol a rheoli hamdden a bioamrywiaeth yng nghefn gwlad. Gallai hefyd fod yn fanteisiol i sefydlu trefniadau llywodraethu cyson ar gyfer yr ardal a'r drefn gynllunio. Yn ogystal â hynny, gallai fod mwy o gyllid ar gael i reoli swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Parc Cenedlaethol newydd.

Mae Cyngor Sir Ddinbych hefyd yn cydnabod, fodd bynnag, nad yw'r broses i benderfynu a yw'n ddymunol i ddynodi wedi'i chwblhau eto a bod gan Gyfoeth Naturiol Cymru lawer o waith i'w wneud eto cyn y gall Cyngor Sir Ddinbych ddod i farn derfynol.

Mae gan Gyngor Sir Ddinbych bryderon arwyddocaol ynglŷn â'r meysydd canlynol (sy'n grynodedb o'r hyn a ddywedodd aelodau a swyddogion yn y digwyddiadau ymgysylltu):

- **Costau ac amseriad y gwaith yng nghyd-destun y gwasgfeydd ar gyllidebau llywodraeth leol ar hyn o bryd.** Mae Awdurdodau Lleol yn ei chael yn anodd cynnal a darparu gwasanaethau statudol wrth i adnoddau grebachu. Maent yn ystyried nifer o ddulliau i gwtogi ar gostau a gwasanaethau ar hyn o bryd, gan gynnwys cau toiledau cyhoeddus a llyfrgelloedd, er enghraifft. Mae'r gwaith y gofynnir i'r Awdurdod ei wneud yng nghyswllt parc cenedlaethol newydd yng ngogledd ddwyrain Cymru'n rhoi straen ar hygyrdd yr Awdurdod i breswylwyr, partneriaid a chymunedau sydd efallai o'r farn y dylai'r Cyngor fod yn canolbwyntio ar faterion

pwysicach. Er bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud ei fod wedi derbyn cyllideb i gyflawni'r gwaith angenrheidiol, ceir pryder bod y rhaglen yn tynnu adnoddau o feysydd eraill o waith Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn creu costau i Awdurdodau Lleol drwy amser swyddogion ac aelodau. Mae'r aelodau'n pryderu'n enwedig ynglŷn ag amseriad y rhaglen ac nid ydynt o'r farn mai hwn yw'r amser iawn i wneud y gwaith. Credau'r aelodau nad oes gan swyddogion yr adnoddau i fedru ystyried yn drylwyr holl oblygiadau'r cynnig hirdymor pwysig hwn. Credir bod y rhaglen waith ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn creu baich gwaith ar adeg anaddas i bawb ac nad yw hynny'n flaenoriaeth i'r Cyngor.

- **Adnoddau a chyllid yn y dyfodol os dynodir y Parc.** Ni chafwyd sicrwydd gan Lywodraeth Cymru'n uniongyrchol ynglŷn â'r cyllid ar gyfer y Parc Cenedlaethol pe câi ei ddynodi. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn credu ei bod yn hanfodol cael sicrwydd er mwyn i'r Cyngor ddod i farn derfynol ynglŷn â'r cynnig. Ceir pryder na fydd y cyllid yn ddigonol ac y bydd mwy o faich ar yr awdurdodau lleol dan sylw. Mae angen i Gyngor Sir Ddinbych gael dealltwriaeth a sicrwydd gan Lywodraeth Cymru ynghylch swm y cyllid blyneddol a ddarperir i Awdurdod y Parc yn y dyfodol ac a ddarperir unrhyw gyllid newydd ar gyfer y gwariant sy'n ofynnol gan yr awdurdodau lleol.
- **Effaith ar Gynllunio a Gwasanaethau eraill yr Awdurdod Lleol.** Heb awgrym pendant o'r sefyllfa o safbwynt rheolaeth y Parc Cenedlaethol arfaethedig a'r awdurdod cynllunio ar ei gyfer (a'r trefniadau llywodraethu'n gyffredinol), mae'n anodd magu dealltwriaeth o'r goblygiadau posib i Sir Ddinbych. Dymuna Cyngor Sir Ddinbych gael gwybod yn bendant a fwriedir creu un awdurdod cynllunio ynteu ryw ddull arall? Ar ba adeg yn ystod y drefn ddynodi a fyddai'r parc cenedlaethol newydd yn dod yn ystyriaeth berthnasol ym maes cynllunio? Mae Cynllun Datblygu Lleol newydd Sir Ddinbych ar y gweill ar hyn o bryd ond ni chaiff ei fabwysiadu cyn 2026 yn ôl pob tebyg. Mae arnom angen magu dealltwriaeth drylwyr o oblygiadau'r gorchymyn dynodi i hynt y Cynllun Datblygu Lleol. Os na fabwysidir y Cynllun newydd cyn y gwneir y gorchymyn dynodi, a fydd yn rhaid i Sir Ddinbych ddechrau o'r dechrau, gan fod yn rhaid i'r sail dystiolaeth ymwneud â'r ardal y tu hwnt i ffiniau'r parc cenedlaethol yn unig? Gan ystyried y gallai ardal y parc cenedlaethol gynnwys tir pump o Awdurdodau Cynllunio Lleol presennol a dwy o ardaloedd Cynllun Datblygu Strategol, sut fydd y drefn rheoli datblygu a chydymffurfiaeth yn gweithio? Os bwriedir defnyddio'r polisïau presennol yn amryw Gynlluniau Datblygu Lleol yr awdurdodau perthnasol, sut eir ati i sicrhau cysondeb? Ceir prinder enbyd o weithwyr cynllunio â phrofiad a chymwysterau addas ledled y rhanbarth. Gallai creu awdurdod cynllunio ychwanegol gynyddu problemau recriwtio. Dymuna Cyngor Sir Ddinbych gael eglurder hefyd ynglŷn â'r effaith ar Wasanaethau Cefn Gwlad a Thirweddau Cenedlaethol, a thimau Hawliau Tramwy Cyhoeddus.
- **Asesiadau Ychwanegol.** Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi comisiynu asesiadau ychwanegol o'r effaith ar y Gymraeg, Iechyd a Chydraddoldeb. Gwnaed astudiaethau pellach hefyd o'r buddion i fyd natur ac o safbwynt economaidd-gymdeithasol. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn croesawu hynny. Creda'r Awdurdod y dylai'r wybodaeth fod wedi bod ar gael pan ddechreuodd yr ymgynghoriad cyhoeddus gan y gallai fod wedi bod yn sail ar gyfer y datganiad hwn ac ymatebion ehangach. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn deall ei bod yn bosib na fydd modd darparu rhai elfennau o'r wybodaeth hon yn gyhoeddus. Mae Cyngor Sir

Ddinbych o'r farn bod y wybodaeth hon yn bwysig er mwyn gallu dod i farn derfynol ac mae'n gofyn bod Cyfoeth Naturiol Cymru'n darparu'r holl wybodaeth yn gyhoeddus. Yn ogystal â'r asesiadau uchod, mae Cyngor Sir Ddinbych yn awgrymu bod Cyfoeth Naturiol Cymru'n cynnal asesiad ffurfiol o'r effaith economaidd (gan gynnwys ardaloedd cyfagos i'r parc arfaethedig).

- **Cydlyniant Cymunedol.** Mae gan y Cyngor bryderon penodol ynglŷn â hyn. Mewn rhai mannau, mae'r ffin arfaethedig yn rhannu aneddiadau a chymunedau. Beth fydd hynny'n ei olygu, yn ymarferol, i bobl yn y cymunedau hynny lle byddai un ochr o'r ffordd yn gorwedd yn y parc cenedlaethol a'r ochr arall heb ei chynnwys? Sut fydd hynny'n effeithio ar y gymuned, ac a fydd yn amharu ar gydlyniant cymunedol? Mae Aelodau a Swyddogion yn cael yr argraff y byddai hynny'n creu rhaniadau a dymunant gael sicrwydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru y rhoddir sylw i'r mater hwn wrth weithio ar yr asesiadau ffaith ac yr ystyrir camau y gellir eu cymryd i liniaru ar unrhyw effaith.
- **Talacre a Thwyni Gronant, a Mynydd Mynyllod a phen uchaf Dyffryn Dyfrdwy.** Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gofyn am eglurder ynglŷn â'r sail resymegol ar gyfer dileu Ardal Cadwraeth Arbennig/Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gronant a'r tir o amgylch Mynydd Mynyllod o'r ardal ymgeisiol. Mae'r Awdurdod o'r farn fod yno achos cryf yn ôl pob golwg o blaid cynnwys y naill ardal a'r llall ar sail eu harddwch naturiol a'r cyfleoedd ar gyfer hamdden yn yr awyr agored, ac mae'n gofyn bod Cyfoeth Naturiol Cymru'n ailystyried yr ardaloedd hynny o'r Sir.